Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-16-20 P6

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cynllun Blynyddol 2020-21

## Yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein huchelgeisiau tymor hwy a'n dangosyddion perfformiad allweddol

Paratowyd y Cynllun Blynyddol hwn ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021, sy'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein huchelgeisiau tymor hwy a'n dangosyddion perfformiad allweddol, ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 25(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 26 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud darpariaeth drwy Reol Sefydlog 18.11(i) i'w Bwyllgor Cyllid fod yn gyfrifol am ystyried y Cynllun Blynyddol a chyflwyno adroddiad arno i'r Cynulliad.

Archwilio Cymru yw enw ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n ddau endid cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol swyddogaethau archwilio ac adrodd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaethau darparu adnoddau, megis staff, er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Pan fo hynny'n berthnasol, mae testun y ddogfen hon yn nodi swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni trwy ddefnyddio'r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn 02920 320 500

E-bost info@audit.wales

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

# Crynodeb o'n cynllun

Ar ran pobl Cymru, rydym yn archwilio gwariant cyhoeddus ac yn nodi ffyrdd o wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae ein gwaith yn cefnogi gwaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chynrychiolwyr a etholwyd yn lleol o graffu'n effeithiol ar arian cyhoeddus. Rydym yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth.

## Pam ydym ni yma?

**Sicrhau**

pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda

**Egluro**

sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion pobl

**Ysbrydoli**

a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella

## Beth yw ein huchelgeisiau?

- Manteisio'n llawn ar ein persbectif unigryw, ein harbenigedd a dyfnder ein dirnadaeth
- Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol
- Cynyddu ein hamlygrwydd, ein dylanwad a'n perthnasedd
- Bod yn sefydliad enghreifftiol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

# Sut ydym ni’n bwriadu cyflawni ein huchelgeisiau?



| **Trwy gyflawni archwiliadau** | | | **Wrth gynnal y busnes** |
|---|---|---|---|
| Sicrhau ein bod yn cryfhau gymaint â phosib bŵer ein dirnadaeth unigryw trwy weithio mewn tîm a rhannu gwybodaeth mewn modd mwy integredig. | Cyflwyno sylwebaeth a thystiolaeth ddibynadwy o’r materion iawn ar yr adeg iawn. | Bod â phwyslais tuag allan agored ac ymgysylltu mewn ffordd sy'n berthnasol i ystod eang o gynulleidfaoedd. | Gan ein bod yn ffurfio barn archwilio ar eraill, gwneud yn siŵr ein bod yn arfer yn gyson yr hyn yr ydym yn ei bregethu. |
| Chwilio yn rhagweithiol am synergeddau a thueddiadau yn yr wybodaeth yr ydym yn ei chadw. | Sicrhau ein bod yn cyfleu’r ffeithiau yn glir ac yn egluro'n gryno pam ein bod wedi dod i gasgliad neu ddehongliad penodol. | Dylanwadu ar feddylfryd ac ymddygiad pobl eraill a llunio'r drafodaeth gyhoeddus ehangach. | Darparu arweiniad clir, cyson a dilys a chyflymu ein proses o wneud penderfyniadau. |
| Canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf ac a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'r cyhoedd ac i gyrff cyhoeddus. | Bod yn wyliadwrus ac ymateb i gyfleoedd newydd i rannu gwybodaeth a dirnadaeth archwilio lle y gall ychwanegu gwerth. | Chwilio am syniadau a ffyrdd o feddwl o’r tu allan i Gymru a'r sector cyhoeddus, a bod yn barod i’w derbyn. | Grymuso pobl ym mhob rhan o'r sefydliad i feddwl am syniadau newydd ac i sicrhau newid cadarnhaol. |

# Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

Mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn disgrifio'r camau yr oeddem yn bwriadu eu cymryd yn ystod y flwyddyn nesaf i gyflawni ein huchelgeisiau sefydliadol a'n hamcanion strategol.

Fodd bynnag, yn fuan cyn cyhoeddi cawsom ein trechu gan amgylchiadau anarferol y feirws Covid-19. Fel pawb arall, mae ein blaenoriaethau presennol wedi newid yn sylweddol wrth i ni ganolbwyntio ar les ein gweithwyr, cynnal parhad y busnes a chefnogi'r sector cyhoeddus a'r gymuned ehangach.

Rydym eisoes wedi cyfathrebu â'r cyrff yr ydym yn eu harchwilio i ddweud ein bod wedi lleihau ein gwaith a'n bod yn defnyddio dulliau gwahanol o gyflawni, i sicrhau nad yw archwilio yn ychwanegu mewn unrhyw ffordd at y pwysau enfawr sydd ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd.

Mae gan Archwilio Cymru arbenigedd hanfodol i helpu Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach i ymateb i rai o'r heriau sydd o'n blaenau. Felly, yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf, byddwn yn penderfynu ar y ffordd orau o helpu pobl Cymru a'u gwasanaethau cyhoeddus trwy'r argyfwng presennol hwn, gan ddarparu sicrwydd, hyrwyddo arferion da a sicrhau y defnyddir adnoddau cyhoeddus mor effeithiol â phosibl. Byddwn yn gwneud hyn mewn modd sensitif ac ar y cyd â'r sector cyhoeddus i sicrhau llywodraethu da mewn cyfnod o helbul rhyfeddol.

> **“yn ystod yr wythnosau a’r misoedd nesaf, byddwn yn penderfynu ar y ffordd orau o helpu pobl Cymru a’u gwasanaethau cyhoeddus trwy’r argyfwng presennol hwn”**

Er gwaethaf yr ansicrwydd a’r anawsterau sydd o’n blaenau, rydym o’r farn bod ein huchelgeisiau cyffredinol yn parhau i fod yn iawn. Pan fydd amgylchiadau yn caniatáu hynny, byddwn yn mynd ati unwaith eto gyda’n hagenda ar gyfer cyflawni ein potensial llawn fel ysgogydd gwelliant gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ein Hadroddiad Interim nesaf, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref, byddwn yn darparu diweddariad manwl ar unrhyw newidiadau yr ydym yn eu gwneud i’r Cynllun hwn mewn ymateb i’r sefyllfa sy’n prysur esblygu.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Isobel Everett**
Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

# Cynnwys


Pwy ydym ni a'r hyn yr ydym yn ei wneud 9

Sut yr ydym yn mynd ar drywydd arian cyhoeddus yng Nghymru 11

Ein huchelgeisiau a sut yr ydym yn bwriadu eu cyflawni 12

Ein hamgylchedd gweithredu 13

Ein rhaglenni gwaith 16

Cyflawni archwiliadau 17

Cynnal y busnes 21

Mesur ein perfformiad 23


## Atodiadau


1 Gwaith archwilio lleol 27

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol 28

3 Cefnogi atebolrwydd a gwaith craffu effeithiol 30

4 Gwaith arfer da 32

5 Ein cyllid 34

# Pwy ydym ni a'r hyn yr ydym yn ei wneud

1 Yr archwilydd allanol statudol ar gyfer y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru yw Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y cyllid y pleidleisir arno'n flynyddol gan y Cynulliad Cenedlaethol. Caiff elfennau sylweddol o'r arian hwn eu trosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i'r GIG ac i lywodraeth leol yng Nghymru.

2 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi oddeutu 270 o staff proffesiynol ac yn defnyddio adnoddau eraill, gan gynnwys arbenigedd ychwanegol gan gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat, er mwyn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau.

3 Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio cyfrifon a chyflawni gwaith archwilio perfformiad lleol mewn amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus, ynghyd â chynnal rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol. Gellid arfer y swyddogaethau hynny i archwilio gwariant cyhoeddus ar y cyd os oes angen, ar draws gwahanol fathau o gyrff, ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.

4 Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio oddeutu £20 biliwn o incwm a gwariant, sef dros chwarter cynnyrch domestig gros Cymru. Yn gynyddol, rydym yn ystyried stiwardiaeth adnoddau dynol a naturiol, ynghyd â'n hystyriaeth o adnoddau ariannol a'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn rhoi cyfrif am yr hyn a ddefnyddir ganddynt.

5 Rydym hefyd yn nodi arferion da o bob rhan o'n gwaith archwilio ac yn rhannu hyn trwy ein Cyfnewidfa Arfer Da a chyfryngau eraill, gan gynnwys rhannu seminarau a gweminarau dysgu.

# Pam yr ydym ni yma



**Sicrhau**
pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda



**Egluro**
sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion pobl




**Ysbrydoli**
a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella

6 Rydym yn ymgymryd â'n gwaith yn unol â Chod Ymarfer Archwilio yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Cod yn rhagnodi'r ffordd y cynhelir archwiliadau a swyddogaethau penodol eraill, ac yn ymgorffori'r hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei ystyried yn arfer proffesiynol gorau.

7 Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU a gyda'r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru i wella effaith gyfunol ein gwaith.

# Sut yr ydym yn mynd ar drywydd arian cyhoeddus yng Nghymru[1]




1 Nid yw'r ffynonellau cyllid a amlygir yn yr arddangosyn yn cynnwys gweithgareddau cynhyrchu incwm mewn cyrff cyhoeddus unigol.

# Ein huchelgeisiau a sut yr ydym yn bwriadu eu cyflawni

8 Yn ystod y blynyddoedd nesaf, rydym yn dymuno cyrraedd ein potensial llawn fel sbardun i newid a gwelliant, sydd wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus ac atebolrwydd democrataidd.

9 Fel y nodwyd yn gyntaf yn ein Cynllun Blynyddol 2019-20, rydym wedi nodi pedair uchelgais eang, a thri amcan strategol ar gyfer pob uchelgais, sy'n disgrifio ar y cyd y llwybr yr ydym yn ei ddilyn tuag at gyflawni'r potensial hwnnw.

### Manteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd, dealltwriaeth graff a safbwynt unigryw

- Cryfhau natur rymus ein dealltwriaeth unigryw drwy weithio mewn tîm a rhannu gwybodaeth mewn ffordd fwy integredig.
- Chwilio'n rhagweithiol am synergeddau a thueddiadau yn y wybodaeth sydd gennym.
- Canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf ac a wnaiff y gwahaniaeth mwyaf i gyrff cyhoeddus a'r cyhoedd.

### Cryfhau ein statws fel llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo

- Dod â thystiolaeth a sylwebaeth ddibynadwy i'r amlwg ar y materion cywir ar yr adeg gywir.
- Sicrhau ein bod yn cyflwyno'r ffeithiau'n glir ac yn egluro'n gryno pam ein bod wedi dod i gasgliad neu ddehongliad penodol.
- Bod yn effro ac yn ymatebol i gyfleoedd newydd i rannu gwybodaeth a dealltwriaeth archwilio lle gall ychwanegu gwerth.

### Dod yn fwy amlwg, dylanwadol a pherthnasol

- Canolbwyntio tuag allan mewn ffordd amlwg ac ymgysylltu mewn ffordd sy'n berthnasol i ystod eang o gynulleidfaoedd.
- Dylanwadu ar ffordd o feddwl ac ymddygiad eraill a llywio'r ddadl gyhoeddus ehangach.
- Ceisio a gwrando ar syniadau a meddyliau y tu hwnt i Gymru a'r sector cyhoeddus.

### Dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

- Gan ein bod yn arddel barn archwilio ar eraill, sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn rydym yn cynghori eraill i wneud.
- Darparu arweinyddiaeth glir, gyson a dilys a gwneud penderfyniadau'n gyflymach.
- Grymuso pobl drwy'r sefydliad i feddwl am syniadau newydd a gwneud newid cadarnhaol.

# Ein hamgylchedd gweithredu

10 Rydym o'r farn mai'r canlynol yw'r prif ffactorau a fydd yn dylanwadu ar y ffordd y byddwn yn cyflawni ein huchelgeisiau, ein hamcanion strategol, a'n rhaglenni gwaith yn ystod y blynyddoedd nesaf.

## Goblygiadau Brexit

11 Gadawodd y DU yr UE ar 31 Ionawr 2020 a bydd mewn cyfnod pontio tan fis Rhagfyr 2020. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r rhan fwyaf o reolau a threfniadau masnachu cyfredol yr UE yn parhau heb unrhyw newidiadau sylweddol yn y rhan fwyaf o feysydd o ran cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

12 Bydd Llywodraeth y DU yn dechrau trafodaethau gyda'r UE ar gytundeb hirdymor parhaol yn fuan, ac mae Llywodraeth Cymru wedi mapio cyfres o flaenoriaethau negodi y mae'n credu sy'n adlewyrchu buddiannau Cymru.

13 Ar hyn o bryd, mae'n dal yn anodd asesu goblygiadau tymor hwy Brexit yn llawn o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys mewn cysylltiad â ffurf y cymorth ariannol i'r economi wledig a'r gweithlu sydd ar gael ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Rydym wedi ymrwymo i raglen sylwebaeth ar archwiliadau 'amser real' ynghylch y broses gymhleth a deinamig hon wrth iddi barhau i ddatblygu.

## Ymwreiddio'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru

14 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi uchelgais beiddgar ar gyfer dyfodol gwasanaethau cyhoeddus ac yn annog newidiadau eang o ran diwylliant ac arfer.

15 O dan y Ddeddf, mae gan gyrff cyhoeddus rhestredig ddyletswydd i roi datblygu cynaliadwy (diwallu anghenion y presennol, heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain) wrth wraidd yr hyn a wnânt. Mae'n rhaid iddynt weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy bennu a chyhoeddi amcanion llesiant a chymryd camau i sicrhau eu bod nhw'n cyflawni'r amcanion hynny.

16 Wrth wneud hyn, mae'n rhaid i'r cyrff hynny ystyried pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr a thymor hir, defnyddio dull mwy integredig a chyfannol, cynnwys ystod amrywiol o randdeiliaid perthnasol a chydweithio â nhw o bosibl, a rhoi rhagor o bwyslais ar ddefnyddio dull rhagweithiol ac ataliol o ddatrys problemau.

17 Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio i ba raddau y mae'r cyrff cyhoeddus rhestredig wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant, ac wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny. Mae ein hadroddiadau ar y camau y mae cyrff unigol yn eu cymryd i gyflawni eu hamcanion llesiant ar gael drwy'r adran gyhoeddiadau ar ein gwefan, a byddwn yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol cyn bo hir a fydd yn crynhoi'r themâu cyffredin a'r tueddiadau a nodwyd trwy'r gwaith hwn.

## Argyfwng hinsawdd

18 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru o leiaf 80% erbyn y flwyddyn 2050, gyda system o dargedau allyriadau interim a chyllidebau carbon.

19 Yn sgil cyhoeddi eu cynllun cyflawni carbon isel cyntaf, sy'n nodi 100 o bolisïau a chynigion ar gyfer cyrraedd targedau allyriadau, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru argyfwng hinsawdd yng Nghymru ar 29 Ebrill 2019 ac, ar ôl hynny, fe wnaethon nhw gyhoeddi buddsoddiad cyfalaf o £140 miliwn er mwyn cefnogi'r broses o ddatgarboneiddio. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan hefyd ei bwriad i sicrhau bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn garbon niwtral erbyn 2030.

20 Yn ogystal â hynny, mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n arfer eu swyddogaethau yng Nghymru ddyletswydd benodol i gynnal a gwella bioamrywiaeth, ac wrth wneud hynny, hybu cadernid ecosystemau. Roedd yn ofynnol cyhoeddi'r adroddiadau cyntaf ynghylch yr hyn y mae cyrff cyhoeddus wedi ei wneud hyd yma i gydymffurfio â'r ddyletswydd erbyn diwedd 2019. Mae angen adroddiadau ychwanegol ynghylch cydymffurfio â'r ddyletswydd bob tair blynedd.

21 Ar 18 Chwefror 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun cymorth llifogydd brys yn rhoi hyd at £10 miliwn i helpu'r ymateb cychwynnol i'r tywydd difrifol a llifogydd diweddar. Mae gwaith yn parhau ar lunio darlun clir o faint o ddifrod sydd ac ar nodi'r cymorth tymor hwy a oedd ei angen, ond mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y bydd angen rhagor o gymorth ariannol sylweddol dros y blynyddoedd nesaf i fynd i'r afael â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu yn sgil newid yn yr hinsawdd.

## Heriau economaidd-gymdeithasol

22 Mae mwy nag un o bob pump o bobl yn byw mewn tlodi yng Nghymru ac mae mwy o bobl yng Nghymru yn dibynnu ar fudd-daliadau o'i gymharu â Lloegr a'r Alban. Mae lefelau tlodi wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth yn y DU ac yng Nghymru yn ystod y 25 mlynedd diwethaf, ac mae llywodraethau'n ailystyried eu dulliau o fynd i'r afael â thlodi.

23 Mae strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb, yn canolbwyntio ar hybu ffyniant economaidd er mwyn helpu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi yng Nghymru. Mae llawer o'r camau gweithredu a gynigir yn y strategaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill weithio mewn ffordd sy'n llawer mwy cydweithredol ac integredig wrth gynllunio a gweithredu atebion ar gyfer y dyfodol.

24 Er mwyn mynd i'r afael â'r niferoedd cynyddol o bobl ddigartref, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Deddf Tai (Cymru) 2014 hefyd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid ganolbwyntio'n benodol ar gamau atal. Fodd bynnag, rydym wedi adrodd, er gwaethaf deddfwriaeth newydd a chyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, bod atal digartrefedd yn parhau i fod yn heriol i lawer o awdurdodau.

25 Mewn adroddiad arall diweddar gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ceir tystiolaeth bod tlodi cynyddol yng Nghymru yn arwain at anghydraddoldebau gwaeth o ran profiadau a chyfleoedd pobl a gaiff eu geni i gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol. Ar ddiwedd 2019, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar eu cynigion o roi dyletswydd ddeddfwriaethol ar gyrff cyhoeddus i ystyried yr angen i leihau'r anghydraddoldebau sy'n deillio o anfanteision economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol.

## Cymdeithas â rhwydweithiau cynyddol

26 Mae datblygiadau ym maes technoleg gwybodaeth yn parhau i ysgogi'r broses o ddigideiddio darpariaethau gwasanaeth a hybu gallu'r cyhoedd i gael gafael ar ddata, a chyfleoedd i ryngweithio ac ymgysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol a ffyrdd eraill o gyfathrebu'n ddigidol. Mae gweddnewid a chynhwysiant digidol yn rhan ganolog o gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy hygyrch ac ystyrlon i'w defnyddwyr, gan sicrhau gwell canlyniadau.

27 Mae gan Gymru dopograffeg a nodweddion dwysedd poblogaeth penodol sy'n peri heriau o ran darparu signalau ffonau symudol a seilwaith digidol. Er nad yw polisi telathrebu wedi ei ddatganoli i Gymru, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi cynllun gweithredu o ran sut y maent yn bwriadu gweithio gyda'r diwydiant ffonau symudol ac Ofcom i ddarparu cysylltedd er mwyn diwallu anghenion pobl a busnesau.

# Ein rhaglenni gwaith

28 Gellir rhannu ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2020-21 yn ddwy adran yn fras – cyflawni archwiliadau a chynnal y busnes.

29 Mae'r adran gyntaf ar gyflawni archwiliadau yn cynnwys rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol a blaenoriaethau ar gyfer 2020-21 wrth arfer ei swyddogaethau. Mae'r ail adran ar gynnal y busnes yn crynhoi'r rhaglen waith a blaenoriaethau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21 wrth iddynt arfer eu swyddogaethau.

30 Ar gyfer pob adran, nodwyd rhai meysydd y dylai'r gwaith ychwanegol ganolbwyntio arnynt a fydd yn ein cynorthwyo i gyflawni ein huchelgeisiau a'n hamcanion strategol yn ystod y flwyddyn nesaf. Bydd y cynnydd a wneir tuag at gyflawni ein hamcanion strategol, gan gynnwys pob un o'r meysydd hyn y dylid canolbwyntio arnynt, yn cael ei arwain gan ein tîm arweinyddiaeth gweithredol a'i fonitro'n agos gan y Bwrdd.

31 Mae'r adnoddau sydd ar gael, ac a allai fod ar gael i Swyddfa Archwilio Cymru, yn ôl yr Amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021 a gymeradwywyd, i'w defnyddio wrth gyflawni'r rhaglenni gwaith hyn.

# Cyflawni Archwiliadau

## Gwaith craidd



Cynnal gwaith archwilio mewn dros **800**




Cyflawni rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau **gwerth am arian**




Ardystio cynlluniau grant sy'n werth bron i **£2.5 biliwn**



Cymeradwyo tua **£1 biliwn** o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis



**Cefnogi gwaith craffu effeithiol** gan gynnwys gwaith Pwyllgorau'r Cynulliad



Cynnal digwyddiadau **dysgu ar y cyd** i fwy na **1,100 o bobl**



Hwyluso'r gwaith o **ganfod twyll** a gwall drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol



Cyflawni rôl **sylwedydd** ar amrywiaeth o weithgorau polisi allweddol

Am ragor o wybodaeth gweler:

Atodiad 1 – Gwaith archwilio lleol

Atodiad 2 – Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Atodiad 3 – Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol

Atodiad 4 – Gwaith arfer da

32 Ynghyd â gofynion cyfreithiol a phroffesiynol, mae pedair egwyddor a gydnabyddir yn eang yn sail i'n gwaith archwilio:

**Y pwyslais cyhoeddus**

Cynhelir archwiliad ar ran y cyhoedd ac fe'i gwneir er budd y cyhoedd

**Annibynnol**

Mae'n rhaid i archwiliadau fod, ac ymddangos, yn annibynnol, wrth iddynt gael eu cynnal mewn ffordd sy'n wrthrychol ac yn ddiduedd

**Atebol**

Caiff archwilwyr y sector cyhoeddus eu hariannu'n gyhoeddus ac maent yn atebol am eu defnydd o arian cyhoeddus

**Cymesur**

Mae angen rhoi digon o le i ddarparwyr gwasanaethau ddarparu gwasanaethau o safon uchel, wrth fod yn destun lefelau craffu digonol, ond nid gormodol

33 Mae'r gwaith archwilio a wnawn mewn cyrff cyhoeddus unigol yn cynnwys:

- rhoi barn ar y cyfrifon;
- ystyried sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion a gymeradwywyd (rheoleidd-dra);
- ystyried sut y mae busnes cyhoeddus yn cael ei gynnal (priodoldeb);
- archwilio a oes trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian a gwelliant parhaus; ac
- asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

34 Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU trwy'r Fforwm Archwilio Cyhoeddus, a gyda'r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru trwy'r fenter Arolygu Cymru, er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwaith archwilio cyhoeddus ac effaith gyfunol ein gwaith. Rydym yn falch o gynrychioli Cymru ar y llwyfan archwilio rhyngwladol ar brydiau, gan gynnwys yn EURORAI[2].

35 Hefyd, gallwn drefnu gyda mathau penodol o gyrff, yn y DU a thramor, er mwyn ymgymryd â gwaith a gomisiynir[3]. Mae hyn yn cynnwys archwilio oddeutu £320 miliwn o gronfeydd Ewropeaidd a ddefnyddir i gefnogi ffermwyr ac amaethyddiaeth ledled Cymru[4], a gweithredu fel Prif Archwilydd ar gyfer Llywodraeth Anguilla, gan archwilio eu cyfrifon.

36 Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac er mwyn ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol, rydym wedi nodi 11 maes i ganolbwyntio arnynt wrth gynnal ein gwaith archwilio yn 2020-21:

- gwella'r modd yr ydym yn casglu, caffael a dadansoddi data, gan gynnwys trwy awtomeiddio tasgau syml ac ailadroddus fel y gallwn ganolbwyntio ein hamser ar feysydd â risg uwch y mae angen rhagor o sylw arnynt.
- gwella'r ffordd yr ydym yn delweddu ac yn cyfleu ein canfyddiadau, gan gynnwys trwy gyhoeddi ystod ehangach o offer data rhyngweithiol a thrwy fuddsoddi mewn gwella sgiliau ymgysylltu a dylanwadu ein staff.
- ymgysylltu ag ystod ehangach o gynulleidfaoedd gyda chanlyniadau o'n gwaith archwilio ariannol, gan gynnwys datblygu allbynnau newydd sy'n esbonio, mewn iaith symlach, gwybodaeth allweddol a thueddiadau o gyfrifon cyrff cyhoeddus.
- archwilio'n fanylach y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau mewn modd integredig a chydweithredol, gan gynnwys mewn cysylltiad â threfniadau gofal iechyd parhaus, y ddarpariaeth o wasanaethau brys a'r ffordd y mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithredu.
- rhannu'r hyn a ddysgwyd o'n rownd gyntaf o archwiliadau o'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a phennu sut y byddwn yn datblygu ymhellach ein dull o archwilio yn y maes hwn.
- rhoi rhagor o bwyslais ar bwysigrwydd rheolaeth ariannol gadarn ar draws cyfundrefn cyllid cyhoeddus Cymru, gan gynnwys cyflwyno trefniadau cryfach ar gyfer archwilio cynghorau tref a chymuned.

2 Prosiect ar gyfer cydweithredu ymysg sefydliadau archwilio'r sector cyhoeddus ledled Ewrop yw European Organisation of Regional External Public Finance Audit Institutions (EURORAI).

3 Pan fyddwn yn darparu gwasanaethau i'r cyrff hynny, neu'n arfer eu swyddogaethau. Rydym yn ymwybodol y dylai pob gweithgaredd o'r fath fod yn hunangyllidol ac na ddylid gwneud hynny ar draul ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.

4 Ar ran y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol

- paratoi adroddiad wedi'i ddiweddaru o'r 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus'[5] sy'n nodi'r prif heriau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd a pha mor dda yw eu sefyllfa i ymateb, er mwyn llywio gwaith y Senedd  yn dilyn etholiadau 2021.
- datblygu cynigion ar sut y byddwn yn ymateb i'r heriau yn sgil newid yn yr hinsawdd trwy ein gwaith archwilio, gan ystyried yr amcanion a nodir yn ein Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau.
- ehangu'r ystod o ddulliau a ddefnyddir i hwyluso'r broses o rannu dysg y tu allan i'n rhaglen graidd o seminarau a gweminarau trwy ein Cyfnewidfa Arfer Da.
- datblygu ystod fwy amrywiol o ddulliau o gasglu safbwyntiau ein rhanddeiliaid am werth ac effaith ein gwaith, gan ganolbwyntio i ddechrau ar geisio safbwyntiau Aelodau'r Cynulliad.
- ymestyn ein trefniadau rheoli ansawdd archwiliadau i ddarparu sicrwydd ychwanegol bod tystiolaeth gadarn a dadansoddiadau trwyadl yn sail i'r holl waith yr ydym yn ei wneud, ac er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fod yn gyson â safonau archwilio rhyngwladol.

5 Yn dilyn cyhoeddi adroddiadau tebyg yn 2011 a 2015

6 Mae Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i 'Senedd Cymru' neu 'The Welsh Parliament' o 6 Mai 2020.

# Cynnal y busnes

## Gwaith craidd




Pennu'r gyllideb gyffredinol o **£22 miliwn** a chodi ffioedd am waith archwilio



Cyflogi tua **270 o staff** a rheoli ystod amrywiol o asedau ffisegol a gwybodaeth



Darparu **arweinyddiaeth gadarn** ac ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiadau



**Monitro'r** modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau a rhoi cyngor iddo

Am ragor o wybodaeth gweler:
Atodiad 5 – Dangos esiampl

37 Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am bennu a goruchwylio cyfeiriad strategol y sefydliad gan sicrhau ein bod ar y trywydd iawn o ran cyflawni ein huchelgeisiau. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys aelodau anweithredol a gweithredol, ynghyd â dau aelod a etholwyd gan gyflogeion, sy'n darparu dimensiwn ychwanegol o ddirnadaeth a phrofiad.

38 Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, a gadeirir gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn ei gynghori ar ei waith fel Archwilydd Cyffredinol, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu. Cafodd cylch gorchwyl y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ei adnewyddu yn ystod 2019-20 ac ehangwyd yr aelodaeth i gynnwys pedwar aelod sy'n gyflogai.

39 Ceir gwybodaeth fanylach am ein trefniadau llywodraethu yn adran Datganiad Llywodraethu ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

40 Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac er mwyn ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol, rydym wedi nodi chwe maes i ganolbwyntio arnynt wrth i ni gynnal ein busnes yn 2020-21:

- Ailstrwythuro ein huwch dîm gweithredol i sicrhau eu bod yn gydnaws â'n huchelgeisiau cyffredinol a chryfhau'r arweinyddiaeth strategol a ddarperir i staff Swyddfa Archwilio Cymru.
- Cyflawni newid sylweddol yn y ffordd yr ydym yn rheoli ac yn cynllunio ar gyfer prosiectau sy'n golygu newid mawr, gan gynnwys cymhwyso arferion rheoli newid mwy trwyadl a chyson.
- Gwella ein proffil cyhoeddus trwy ddatblygu llais corfforaethol sy'n fwy allblyg a gwahaniaethol a'i gwneud yn haws ein hadnabod trwy fabwysiadu hunaniaeth ymbarél 'Archwilio Cymru'
- Cryfhau ein strategaeth ar gyfer denu, cadw a datblygu gweithlu hyfedr ac amrywiol, gyda phwyslais penodol ar sicrhau bod ein prosesau recriwtio, rheoli dawn a chynllunio olyniaeth yn cael eu hadnewyddu a'u bod nhw'n addas i'r diben.
- Darparu cymorth parhaus i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer eu gwaith o fynd i'r afael â'r cymhlethdod diangen yn ein trefniadau statudol ar gyfer codi ffioedd a llywodraethu.
- Ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy i raddau mwy helaeth yn ein prosesau o wneud penderfyniadau, gan gynnwys wrth gynnal adolygiad o drefniadau teithio a chynhaliaeth ein staff, datblygu cynigion er mwyn diwallu ein hanghenion llety yn y dyfodol, ac arbrofi gyda ffyrdd newydd, mwy effeithlon a mwy clyfar o weithio.

# Mesur ac adrodd ar ein perfformiad

41 Yn 2020-21, byddwn yn defnyddio cyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol i fesur ac adlewyrchu ac adrodd ar ein perfformiad, ein gwerth am arian a'n risgiau. Bydd hyn yn cynnwys adrodd yn rheolaidd i'n Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'n Bwrdd ar y cynnydd a wneir tuag at gyflawni ein hamcanion strategol a'n targedau dangosydd perfformiad allweddol. Bydd hefyd yn cynnwys adroddiadau archwilio mewnol i'n Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

42 Ar gyfer pob adran o'r Cynllun hwn, rydym wedi nodi cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol lefel uchel a fydd yn ein helpu i fesur y cynnydd a wneir tuag at gyflawni ein huchelgeisiau cyffredinol. Byddwn yn rhoi pwyslais ar werthuso ein cyfeiriad teithio a chyflymder y gwelliannau, ynghyd â chymharu â meincnodau priodol.

43 Byddwn yn adrodd ar ein perfformiad yn allanol drwy ein Hadroddiad Blynyddol, ein Cyfrifon a'n Hadroddiad Interim, a thrwy ddarparu tystiolaeth yng nghyfarfodydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Dylid nodi mai is-set o gyfres ehangach o ddangosyddion perfformiad gweithredol a chorfforaethol yw dangosyddion perfformiad allweddol, ac adroddir hefyd ar lawer ohonynt yn allanol yn ein Hadroddiad Blynyddol, ein Cyfrifon a chyhoeddiadau corfforaethol eraill.

44 Wrth baratoi'r Cynllun hwn, fe wnaethom adolygu ein cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol a'n targedau cysylltiedig gan gyfeirio at lefelau perfformiad cyfredol a meincnodau allanol priodol, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'n huchelgeisiau cyffredinol a'n dyheadau i wella. Bydd y targedau'n parhau i fod yn destun gwaith craffu a mireinio parhaus er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon heriol ond yn gyflawnadwy o fewn yr amserlenni penodedig.

# Dangosyddion perfformiad allweddol cyflawni archwiliadau

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| 1 | Terfynau amser statudol | Cyfran y cynhyrchion archwilio a gyflawnir erbyn y terfyn amser statudol gofynnol. | 100% |
| 2 | Yn brydlon | Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill a gyflawnir yn unol â'r amserlen arfaethedig ar gyfer sicrhau adroddiadau amserol ac effeithiol. | 90% |
| 3 | Ansawdd | Cyfran yr archwiliadau a adolygwyd a ddarperir yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol. | Aseswyd 100% o'r sampl yn rhai boddhaol neu'n uwch, a 90% yn dda neu'n uwch[7] |
| 4 | Hygrededd | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n ein hystyried yn adroddwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraeth a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus. | O leiaf 90% |
| 5 | Darparu dirnadaeth | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, trwy ein gwaith, wedi cael dirnadaeth ddefnyddiol na fyddent wedi ei chael fel arall. | O leiaf 80% |
| 6 | Ysgogi gwelliant | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau i'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus. | O leiaf 80% |
| 7 | Effeithiau ariannol posibl | Gwerth arbedion posibl, incwm, enillion cynhyrchiant a buddion ariannol eraill a nodwyd drwy ein gwaith. | O leiaf £30 miliwn yn ystod 2018-2021 |
| 8 | Digwyddiadau arfer da | Cyfran y bobl a ddaeth i'n seminarau a'n gweminarau a ystyriodd y digwyddiadau yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. | O leiaf 90% |
| 9 | Ymweliadau â'n gwefan | Nifer yr ymweliadau â'n gwefan pan fo o leiaf un weithred yn cael ei chyflawni, e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo. | 25,000 bob blwyddyn |
| 10 | Cyfryngau cymdeithasol | Nifer yr ymgysylltiadau ar gyfryngau cymdeithasol, h.y. ymgysylltiadau â'n negeseuon trwy eu hoffi, trwy wneud sylw arnynt, neu drwy eu rhannu. | 1,300 bob blwyddyn |
| 11 | Rhannu dysg am archwilio | Nifer yr achosion pan fyddwn yn cyflwyno dysg am archwilio i weithgorau polisïau allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gynhelir yn allanol. | 50 bob blwyddyn |

7 Pan fo 'da' gyfwerth â chategori 2A o ansawdd archwilio y Cyngor Adrodd Ariannol, a 'boddhaol' gyfwerth â chategori 2B

# Dangosyddion perfformiad allweddol cynnal y busnes

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| 12 | Ymgysylltu â chyflogeion | Canran y sgôr mynegai ymgysylltu arolwg blynyddol y staff sy’n gadarnhaol (wedi ei gyfochri ag Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil). | Sgôr o’r 9fed degradd neu uwch yn Arolwg Pobl diweddaraf y Gwasanaeth Sifil |
| 13 | Profiad y cyflogeion | Canran y sgorau cadarnhaol profiad y cyflogeion yn arolwg thematig blynyddol y staff[8]. | Sgorau yn y chwartel uchaf neu uwch (perfformwyr uchel) yn Arolwg Pobl diweddaraf y Gwasanaeth Sifil |
| 14 | Absenoldeb oherwydd salwch | Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul aelod o staff bob blwyddyn. | Llai na 6 diwrnod |
| 15 | Mantoli ariannol | Lefel yr amrywiant mewn incwm a gwariant gros o'i chymharu â’r hyn a nodwyd yn ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol. | O fewn 2% o'r gyllideb |
| 16 | Arbedion o ran costau ac effeithlonrwydd | Gwerth yr arbedion o ran costau ac effeithlonrwydd a nodwyd ym mhob rhan o'r busnes. | £1.3 miliwn yn 2020-21 |
| 17 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Cyfanswm yr allyriadau $CO_2$ cyfatebol o ffynonellau yr ydym yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, o'r defnydd o drydan a brynwyd, i’r hyn a gynhyrchir yn anuniongyrchol o ganlyniad i'n gweithgareddau. | 375 tunnell yn 2020-21 |
| 18 | Cyfradd llwyddiant ar gyfer hyfforddeion | Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo’r tro cyntaf yn eu harholiadau Proffesiynol Lefel Uwch gyda Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr. | O leiaf 90% |

8 Themâu allweddol profiad y cyflogeion yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yw: amcanion a diben y sefydliad; arweinyddiaeth a rheoli newid; diwylliant y sefydliad; fy rheolwr; fy ngwaith; fy nhîm; cynhwysiant a thriniaeth deg; dysgu a datblygu; adnoddau a llwythi gwaith; cyflogau a budd-daliadau; a gweithredu.

# Atodiadau

1 Gwaith archwilio lleol

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

3 Cefnogi atebolrwydd a gwaith craffu effeithiol

4 Gwaith arfer da

5 Ein cyllid

# 1 Gwaith archwilio lleol

45 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith lleol yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwilio cyfrifon, gwaith archwilio perfformiad lleol a gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

| Corff cyhoeddus | Archwilio cyfrifon | Gwaith archwilio perfformiad lleol[9] | Gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | ✓ | | |
| Llywodraeth Cymru | ✓ | | ✓ |
| 8 corff a noddir gan Lywodraeth Cymru | ✓ | | ✓[10] |
| Awdurdod Cyllid Cymru gan gynnwys y datganiad treth | ✓ | | |
| 4 cwmni Llywodraeth Cymru | ✓ | | |
| 8 Comisiynydd, Arolygiaeth a Rheoleiddiwr | ✓ | | |
| 7 Bwrdd Iechyd Lleol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Ymddiriedolaeth y GIG ac Awdurdod Iechyd Arbennig | ✓ | ✓ | ✓[11] |
| 22 o gynghorau (Awdurdodau Unedol) | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4 Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Tân ac Achub | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9 Cronfa bensiwn | ✓ | | |
| Nifer o gyrff llywodraeth leol llai gan gynnwys cyd-bwyllgorau, ardaloedd draenio ac awdurdodau harbwr | ✓ | | |
| Dros 730 o Gynghorau Tref a Chymuned | ✓[12] | | |

9 Nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol ym mhob corff llywodraeth ganolog. Mae'r gwaith archwilio perfformiad a gynhelir yn y sector hwn ar hyn o bryd yn rhan o'i raglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol.

10 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

11 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

12 Ar sail sicrwydd cyfyngedig.

# 2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

46 Mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, astudiaethau llywodraeth leol, a pharatoi adroddiadau cryno ar ganfyddiadau gwaith archwilio lleol ar draws nifer o gyrff y GIG, llywodraeth ganolog a/neu lywodraeth leol. Mae'n cynnwys archwiliadau hefyd a gynhaliwyd mewn ymateb i faterion o bryder i'r cyhoedd a nodwyd trwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol drwy ohebiaeth.

47 Mae allbynnau llawer o'r rhaglen hon yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol a phwyllgorau eraill y Cynulliad. Mae rhagor o wybodaeth am ein rhaglen o arholiadau ac astudiaethau ar gael ar ein gwefan.

48 Mae'r rhaglen yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn ymateb i amgylchiadau newidiol, a blaenoriaethau a materion sy'n peri pryder i'r cyhoedd neu'r senedd, ac er mwyn ymgorffori dysg â pherthnasedd ehangach o waith archwilio lleol.

## Gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo

- Rheoli cyllid Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (CAEDG) gan Lywodraeth Cymru
- Papur gwyntyllu ynghylch gweithredu deddfwriaeth newydd (gan ddefnyddio gwaith archwilio blaenorol)
- Byrddau gwasanaethau cyhoeddus – mynd i'r afael â chysgu allan
- Llesiant cenedlaethau'r dyfodol
- Rhaglen i gael gwared ag asbestos yn Ysbyty Glan Clwyd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Codio clinigol y GIG
- Llywodraeth leol – cynaliadwyedd ariannol
- Trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol
- Amseroedd aros dewisol y GIG
- Gwasanaethau orthopedig
- Trefniadau gwrth-dwyll yn y sector cyhoeddus yng Nghymru
- System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru
- Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon
- Trefniadau llywodraethu o ansawdd da yng nghyrff y GIG
- Masnacheiddio mewn awdurdodau lleol
- Effaith cyni ar wasanaethau dewisol awdurdodau lleol
- Gweithlu Llywodraeth Cymru
- Rheoli grantiau Llywodraeth Cymru
- TGCh Llywodraeth Cymru
- Gweinyddu cyllid myfyrwyr
- Rhaglen cartrefi clyd – Arbed a Nyth
- Cadernid digidol cyrff cyhoeddus

## Gwaith newydd yr ydym yn bwriadu bwrw ymlaen ag ef yn 2020-21

- Brexit
- Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus
- Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol
- Gwella'r cwricwlwm
- Tai fforddiadwy
- Rheoli llifogydd arfordirol a'r risg o erydu
- Seilwaith band eang
- Sylwebaeth ar gyfrifon Llywodraeth Cymru
- Adeiladau/cartrefi gwag
- Taliadau uniongyrchol mewn Llywodraeth Leol
- Gwasanaethau brys – cydweithredu
- Gofal heb ei drefnu
- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
- Camau atal mewn llywodraeth leol
- Llywodraeth leol - cynaliadwyedd ariannol

# 3 Cefnogi atebolrwydd a gwaith craffu effeithiol

## Cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau eraill y Cynulliad

49 Mae ein gwaith yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o ystyried y defnydd o adnoddau wrth i swyddogaethau cyhoeddus gael eu cyflawni yng Nghymru. Hefyd, pan fo hynny'n berthnasol, gall ein gwaith lywio gwaith pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol y mae eu cylch gwaith ehangach yn cynnwys craffu ar wariant a pholisïau Llywodraeth Cymru, dwyn Gweinidogion i gyfrif, ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig.

50 Yn 2020-21, byddwn yn rhoi cyfarwyddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch cynnwys adroddiadau cyhoeddedig yr Archwilydd Cyffredinol, a fydd yn helpu'r Pwyllgor i benderfynu ar eu camau gweithredu dilynol. Byddwn hefyd yn rhoi cyngor a chymorth ychwanegol i'r Pwyllgor yn ôl y gofyn, yn enwedig mewn cysylltiad â:

- datblygu cyfarwyddiadau aelodau ar gyfer sesiynau tystiolaeth gyda thystion o Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill;
- datblygu adroddiadau'r Pwyllgor, gan gynnwys unrhyw adroddiadau etifeddiaeth; a
- rhoi cyngor ar ddigonolrwydd ymatebion ffurfiol Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn adroddiadau'r Pwyllgor.

## Cefnogi gwaith y pwyllgorau archwilio a chraffu ar gyrff cyhoeddus

51 Drwy gydol y flwyddyn, byddwn yn bresennol yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgorau archwilio'r prif gyrff yr ydym yn eu harchwilio er mwyn darparu cyfarwyddiadau rheolaidd a chyflwyno adroddiad ar ein gwaith archwilio.

52 Byddwn hefyd yn darparu cyngor a chymorth ychwanegol i bwyllgorau archwilio a chraffu, pan fo hynny'n berthnasol, yn enwedig mewn cysylltiad â:

- rhoi cymorth ac arweiniad i gadeiryddion pwyllgorau er mwyn eu helpu i fod yn fwy effeithiol yn eu swyddogaeth; a
- darparu cyfleoedd seminarau arfer da a sesiynau codi ymwybyddiaeth i aelodau'r pwyllgor ynghylch materion sy'n arbennig o berthnasol.

## Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig lleol

53 Rydym yn cael gohebiaeth yn rheolaidd gan y cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill, sy'n codi pryderon posibl ynghylch stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn 'berson rhagnodedig' hefyd ar gyfer derbyn datgeliadau oddi wrth chwythwyr chwiban ynghylch twyll a chynnal busnes cyhoeddus yn briodol, gwerth am arian ac anonestrwydd mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

54 Yn 2020-21, byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn:

- ymateb i bryderon o'r fath yn brydlon ac mewn modd teg, gwrthrychol a phroffesiynol;
- gwerthfawrogi pwysigrwydd y materion i'r rhai hynny sydd wedi rhoi o'u hamser i dynnu sylw atynt;
- cyhoeddi adroddiadau archwilio pan fyddwn o'r farn bod eu bod yn haeddiannol; a
- gwneud yn siŵr nad ydym yn defnyddio arian cyhoeddus i edrych ar faterion nad ydynt yn berthnasol i'n gwaith archwilio na threulio gormod o amser ar faterion llai.

# 4 Gwaith arfer da

55 Mae pwyslais allweddol ein gwaith arfer da ar hwyluso sgyrsiau rhwng darparwyr gwasanaethau pan fo dysg o'n gwaith archwilio ac o'u llwyddiannau a'u methiannau cymharol yn cael ei rannu wyneb yn wyneb. Rydym yn cyflwyno yn gynyddol safbwyntiau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau ac arbenigwyr byd-eang yn y sgyrsiau hyn.

56 Mae ein rhaglen o seminarau a gweminarau dysg a rennir yn hyblyg ac mae'n bosibl y bydd pynciau ychwanegol yn cael eu hychwanegu atynt yn ystod y flwyddyn.

| Pwnc | Digwyddiad[13] | Pryd |
|---|---|---|
| Symud o strategaeth i weithredu – y cynnydd o ran gweithredu'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | Seminar | Mai 2020 |
| Rhannu'r gwersi a ddysgwyd o'n harchwiliadau o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn 2018-2019 | Seminar | Mehefin 2020 |
| Rheolaeth ariannol gynaliadwy mewn cyrff cyhoeddus. | Seminar | Gorffennaf 2020 |
| Cynghorau Tref a Chymuned – trefniadau archwilio newydd. | Gweminar | Medi 2020 |
| Trechu tlodi | Seminar | Medi – Hydref 2020 |
| Orthopedeg / amseroedd aros | Seminar | Hydref – Tachwedd 2020 |
| Y drws blaen i ofal cymdeithasol – edrych ar sut y gall gwasanaethau cyhoeddus ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol cyfartal i bawb ni waeth ble y maent yn byw. | Seminar | Rhagfyr 2020 |
| Gwneud y gorau o ddata sefydliad – rhannu dysg ynghylch sut y mae sefydliadau yn dod yn sefydliadau sy'n galluogi data. | Gweminar | Ionawr 2021 |

13 Cynhelir ein seminarau mewn dau leoliad, yng Nghaerdydd ac yn Llanrwst.

| Pwnc | Digwyddiad[13] | Pryd |
|---|---|---|
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – rhannu enghreifftiau o wasanaethau cyhoeddus sy'n helpu pobl i ymgysylltu â diwylliant ac iaith Cymru yn eu bywydau dyddiol. | Seminar | Chwefror 2021 |
| Darlun o wasanaethau cyhoeddus – amlygu patrymau tueddiadau gwariant cyhoeddus | Gweminar | Mawrth 2021 |
| Caffael cynaliadwy – yr hyn y mae angen i gyrff cyhoeddus ei wneud yn wahanol er mwyn sicrhau y gellir gwario arian mewn ffordd sy'n rhoi manteision ehangach i Gymru | Seminar | Mawrth 2021 |

# 5 Ein cyllid

57 Mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn craffu ar ein defnydd o adnoddau, gan gynnwys ystyried y Cynllun hwn, ein Hamcangyfrif, Cynllun Ffioedd, Adroddiad Interim ac Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol.

58 Daw oddeutu dwy ran o dair o'n cyllid o ffioedd a godir ar gyrff a gaiff eu harchwilio yn unol â chynllun ffioedd a gymeradwyir[14] gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o'r gweddill yn cynnwys cyllid cymeradwy o Gronfa Gyfunol Cymru, ac mae ein defnydd ohono yn destun gwaith craffu rheolaidd gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn.

59 Nodir y blaenoriaethau allweddol ar gyfer ein defnydd o adnoddau yn 2020-21 yn ein Hamcangyfrif diweddaraf, a gafodd ei ystyried a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2019. Mae £16 miliwn o'n gwariant arfaethedig yn ymwneud ag adnoddau a fydd ar gael i'r Archwilydd Cyffredinol gyflawni ei raglen waith[15]. Mae £6 miliwn ychwanegol yn darparu amrywiaeth o wasanaethau galluogi corfforaethol, gan gynnwys llety a gwasanaethau cymorth eraill, megis cyngor cyfreithiol, TGCh ac adnoddau dynol[16].


60 Mae'r Bwrdd yn adolygu ein perfformiad ariannol bob tro y mae'n cyfarfod drwy gydol y flwyddyn. Bob mis, mae ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn ystyried asesiad risg o'n hiechyd ariannol corfforaethol gyda'r nod o sicrhau gwerth am arian ac alldro diwedd blwyddyn yn y gyllideb. Mae'r asesiad risg yn cwmpasu'r perfformiad ariannol hyd yn hyn eleni, y broses o gyflawni arbedion yn ystod y flwyddyn, yr alldro a ragwelir, gwariant cyfalaf, lefelau'r dyledwyr a'r llif arian.


14 Yn dilyn ymarfer ymgynghori gyda'r cyrff yr ydym yn eu harchwilio a rhanddeiliaid allweddol eraill.

15 Dyma'r uchafswm o adnoddau sydd ar gael, ac a all fod ar gael, y rhagwelir y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ei ddyrannu i'r Archwilydd Cyffredinol er mwyn ymgymryd â'i raglen waith.

16 Mae hyn yn golygu'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru.

# Incwm a gwariant



Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

www.archwilio.cymru